**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Hydref 2011

Annwyl Syr / Madam,

Daeth y ddeiseb a ganlyn i law Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

*'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ymgyrch i sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru.*

*Er bod yr Alban a'r Iwerddon wedi llwyddo i ddod yn aelodau o'r Cyngor Criced Rhyngwladol a chystadlu yng Nghwpanau'r Byd, mae Cymru wedi methu â gwneud hynny. Yn wir, nid oes yr un chwaraewr o Gymru wedi chwarae criced rhyngwladol ers dros bum mlynedd o ganlyniad i fod yn gysylltiedig â Bwrdd Criced Lloegr. Yn ddiweddar, chwaraeodd tîm criced Cymru a Lloegr nifer o gemau "cartref" ym mhrifddinas Cymru, er nad oedd yr un chwaraewr o Gymru'n aelod o'r tîm. Byddai'n annerbyniol mewn unrhyw chwaraeon eraill, fel rygbi, i dîm nad yw'n cynnwys yr un Cymro, sy'n chwarae o dan fanner gwlad arall, gyda bathodyn gwlad arall ar ei frest, i fod yn chwarae gêm "gartref" ym mhrifddinas Cymru. Ni fyddai hyn yn dderbyniol ar gyfer unrhyw chwaraeon eraill, ac ni ddylai fod yn dderbyniol ar gyfer criced. Nid yw'r trefniadau presennol yn meithrin criced yng Nghymru ac, mewn gwirionedd, maent yn peri niwed i'r gêm oherwydd bod diffyg cyfle i gricedwyr o Gymru chwarae i'r safon uchaf. Ar hyn o bryd, nid yw Cymru wedi'i chynrychioli o gwbl mewn criced rhyngwladol ac mae'n rhaid i hyn newid drwy sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru.'*

Hoffem gael sylwadau unigolion, grwpiau a sefydliadau ar destun y ddeiseb hon. Caiff y sylwadau eu defnyddio fel tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau pan fydd yn ystyried y ddeiseb.

**Cwestiynau y gallech eu hystyried wrth ymateb**

1. A ydych yn teimlo bod yr hyn y mae'r ddeiseb yn galw amdano'n rhesymol a/neu'n ymarferol?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost / Email:petition@wales.gov.uk

2. A oes tystiolaeth i gefnogi'r honiad bod y trefniadau presennol yn golygu nad yw cricedwyr o Gymru yn cael yr un cyfleoedd â chricedwyr o wledydd eraill yn y Deyrnas Unedig?
3. Beth yw'r rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru?
4. A ddylai'r ECB (Bwrdd Criced Cymru a Lloegr) gynnal gemau cartref yng Nghymru? Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn hyn?

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ei hanfon erbyn dydd Iau, 17 Tachwedd 2011. Mae rhagor o ganllawiau ar gyflwyno tystiolaeth wedi'u hatodi.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhannu'r cais hwn â phobl eraill sydd â diddordeb yn y pwnc neu, os yw hynny'n briodol, ag unrhyw un o'ch sefydliadau cysylltiedig.

Yn gywir



**Abigail Phillips**
**Clerc y Pwyllgor Deisebau**

**Cyngor ynghylch cyflwyno deisebau**

- Gall y Pwyllgor alw ar y rhai sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ategu'r dystiolaeth honno drwy gyflwyno tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor. Nodwch yn eich ymateb a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar.
- Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Caiff tystiolaeth ysgrifenedig ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, ac mae'n bosibl y caiff darnau ohoni eu cynnwys wedyn yn yr adroddiad.
- Ni fydd y Cynulliad yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol. Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.